***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 rhif 2830 (Cy. 286) (C. 130)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2014

*Gwnaed* - - - - *20 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 185(3) ac (8) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

### Cychwyn a chymhwyso

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2014 i rym o ran Cymru ar 21 Hydref 2014—

(a) adran 94 (sail newydd ar gyfer troseddau difrifol neu dorri gwaharddiadau etc) ac Atodlen 3 (Atodlen i gael ei mewnosod fel Atodlen 2A i Ddeddf Tai 1985);

(b) adran 95 (gofynion hysbysu ar gyfer sail newydd);

(c) adran 96 (gofynion adolygu ar gyfer sail newydd);

(d) adran 97 (sail newydd gyfatebol a gofynion hysbysu ar gyfer tenantiaethau sicr);

(e) adran 100(2) a (3) (cyfyngiadau pan fo achosion meddiannu newydd yn mynd rhagddynt etc);

(f) adran 181(1) (diwygiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 11 a bennir ym mharagraff (g) isod; a

(g) yn Atodlen 11 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)—

(i) paragraff 2;

(ii) paragraff 7;

(**1**) 2014 p. 12.

(iii) paragraff 8;
(iv) paragraff 9;
(v) paragraff 10;
(vi) paragraff 13;
(vii) paragraff 14;
(viii) paragraff 15(4)(a) ac (c);
(ix) paragraff 16;
(x) paragraff 18; a
(xi) paragraff 19.

**Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â dwyn adrannau 94 a 97 i rym yng Nghymru**

**3.** Mewn perthynas â dwyn adrannau 94 a 97 (sail absoliwt ar gyfer meddiannu) i rym yng Nghymru, ni fodlonir amod 5 yn adran 84A(7) o Ddeddf Tai 1985(**2**) ac amod 5 yn Sail 7A o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988(**3**) ond pan gaiff y drosedd o dan—

(a) adran 80(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**4**) (torri hysbysiad atal mewn perthynas â niwsans statudol), neu

(b) adran 82(8) o'r Ddeddf honno (torri gorchymyn llys i atal niwsans statudol ac ati),

ei chyflawni gan y tenant, neu berson sy'n preswylio yn y tŷ annedd neu'n ymweld ag ef, ar 20 Hydref 2014, neu wedi hynny.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

20 Hydref 2014

(**2**) 1985 p. 68. Mae adran 84A wedi ei mewnosod yn rhagolygol gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.
(**3**) 1988 p. 50. Mae Sail 7A o Ran 1 o Atodlen 2 wedi ei mewnosod yn rhagolygol gan adran 97(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.
(**4**) 1990 p. 43.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag amryw o ddarpariaethau Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") i rym yng Nghymru.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym, o ran Cymru, ddarpariaethau sy'n ymwneud â sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol (adrannau 94 – 97, 100(2) a (3) o Ddeddf 2014, ac Atodlen 3 iddi) a diwygiadau canlyniadol cysylltiedig, yn ogystal â diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â Rhannau 1, 2 a 4 o Ddeddf 2014.

Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â dwyn adrannau 94 a 97 o Ddeddf 2014 i rym er mwyn sicrhau na fodlonir amod 5 yn y sail absoliwt newydd ar gyfer meddiannu ond pan gaiff y drosedd o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ei chyflawni ar 20 Hydref 2014, neu wedi hynny.

## NODYN AM ORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2014 wedi eu dwyn i rym yn llawn (oni nodir fel arall) gan orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 96 (yn rhannol)<br><br>(Lloegr yn unig) | 17 Medi 2014 | 2014/2454 |
| Adran 98 (Lloegr yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 98 (Cymru yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/1241 (W.129) |
| Adran 99 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 100(1) (Lloegr yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 100(1) (Cymru yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/1241 (W.129) |
| Adran 101 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 104 (yn rhannol) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 105 i 107 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 108 i 111 | 14 Gorffennaf 2014 | 2014/949 |
| Adran 112 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 116 i 118 | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| Adran 119 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 120 a 121 | 16 Mehefin 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 123 i 130 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 131 a 132 | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| Adran 133 (yn rhannol) | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| Adran 134 | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| Adran 136 | 1 Hydref 2014 | 2014/2454 |
| Adrannau 138 a 139 | 1 Hydref 2014 | 2014/2454 |
| Adran 140 | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| Adrannau 141 a 142 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 143 | 20 Mawrth 2014 | 2014/630 |
| Adrannau 144 i 146 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 147 | 14 Mawrth 2014 | 2014/630 |
| Adran 148 (yn rhannol) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| | 31 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| | 1 Ebrill 2015 | 2014/1916 |
| Adran 149 | 2 Mehefin 2014 | 2014/1226 |
| Adrannau 152 a 153 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adrannau 155 i 159 | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| Adrannau 161 i 167 | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| Adrannau 169 i 173 | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| Adran 174 | 6 Hydref 2014 | 2014/2454 |
| Adran 176 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 178 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 179 | 1 Mehefin 2014 | 2014/949 |
| Adran 181(1) (yn rhannol) | 20 Mawrth 2014 | 2014/630 |
| | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| | 1 Hydref 2014 | 2014/2454 |
| Adran 181(1) (yn rhannol) (Lloegr yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Adran 181(1) (yn rhannol) (Cymru yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/1241 (W.129) |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Atodlen 8 | 14 Mawrth 2014 | 2014/630 |
| Atodlen 9 (yn rhannol) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| | 31 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| | 1 Ebrill 2015 | 2014/1916 |
| Atodlen 10 | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Atodlen 11 (yn rhannol) | 20 Mawrth 2014 | 2014/630 |
| | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| | 21 Gorffennaf 2014 | 2014/1916 |
| | 1 Medi 2014 | 2014/2125 |
| | 1 Hydref 2014 | 2014/2454 |
| Atodlen 11 (yn rhannol) (Lloegr yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/949 |
| Atodlen 11 (yn rhannol) (Cymru yn unig) | 13 Mai 2014 | 2014/1241 (W.129) |